



## **SWYDDOG DYSGU A DATBLYGU (SGILIAU CYFFREDINOL AC YMGYSYLLTU Â GWEITHWYR)**

**Rhif y Swydd: 503164**

**CYFLOG: £27,741 – 29,577**

**GRADD: 9**

**37 awr yr wythnos**

**Cytundeb Cyfnod penodol hyd at fis Mawrth 2023**

Mae swydd barhaus barhaol wedi codi ar gyfer Swyddog Dysgu a Datblygu (Sgiliau cyffredinol ac Ymgysylltu â Gweithwyr) o fewn Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Wedi'i lleoli ym Mhencadlys GTADC yn Llantrisant, mae'r swydd llawn amser newydd hon (37 awr) yn rhan o dîm Dysgu a Datblygu'r Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu datrysiadau proffesiynol dysgu, datblygu ac ymgysylltu i weithwyr GTADC gydol eu gyrfaoedd. Bydd y swydd yn canolbwyntio ar ddsbarthiadau meistr (darpariaeth fewnol ac allanol) gan hefyd sefydlu prosesau datblygu newydd megis gwerthusiadau, llwybrau arweinyddiaeth a datrysiadau hyfforddi drwy greu cynllun ymgysylltu â gweithwyr. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus felly ddangos sgiliau cynllunio, cyfathrebu a chyflwyno ardderchog yn ogystal â brwdfrydedd i yrru diwylliant mwy cynhwysol a thrawsnewidiol ar draws y Gwasanaeth.

**Sylwer bod y rôl hon yn agored i'r sawl a fynno ystyried lleoliad fel rhan o secondiad.**

Achos natur y swydd bydd yn ofynnol i'r sawl a benodir weithio fin nos neu ar benwythnosau ar adegau gyda rhywfaint o deithio ar draws ardal GTADC. Mae angen gallu i deithio'n annibynnol.

Gellir canfod mwy o fanylion sy'n ymwneud â'r swydd hon yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person y gellir eu lawr lwytho ynghyd â ffurflen gais o dudalen Gweithio i Ni/Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk).

---

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy lawr i [personel@decymru-tan.gov.uk](mailto:personel@decymru-tan.gov.uk). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **Dydd Llun y 6<sup>ed</sup> o fis Rhagfyr 2021 am ganol dydd**. Cynhelir cyfweiliadau **yn ystod yr wythnos yn cychwyn y 13<sup>eg</sup> o fis Rhagfyr 2021**.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg. Gallai fod angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad sylfaenol boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban a gallai fod angen ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni ymdrinir â ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.